# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Davies, Martyn Holland, Huw Jones, Arwel Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid/Swyddog Adran 151 (RW) ac Addysg a Gwasanaethau Plant (KE); Arweinydd Tîm Lleoedd (SC); Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL); Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Addysg (JC); Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol (GD); Rheolwr Amgylchedd Adeiledig (GR) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen – Cyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif Band B

Y Cynghorydd Meirick Davies - Llywodraethwr Ysgol Cefn Meiriadog ac Ysgol Trefnant
Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Llywodraethwr Ysgol Brynhyfryd a Pen Barras/Rhiant
Y Cynghorydd Martyn Holland - Llywodraethwr Ysgol Bro Famau
Y Cynghorydd Arwel Roberts – Llywodraethwr Ysgol y Castell ac Ysgol Dewi Sant
Y Cynghorydd Glenn Swingler – Llywodraethwr Ysgol Pendref
Y Cynghorydd Rhys Thomas – Llywodraethwr Ysgol Twm o'r Nant ac Ysgol Frongoch
Y Cynghorydd Tony Thomas – Llywodraethwr Ysgol Brynhedydd/Plentyn yn Ysgol y Santes Ffraid
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill - Llywodraethwr Ysgol Clawdd Offa
Y Cynghorydd Emrys Wynne – Llywodraethwr Ysgol Borthyn

Y Cynghorydd Mark Young – Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Dinbych

Datganodd y Cynghorydd Meirick Davies hefyd fudd personol yn eitem 9 yn y rhaglen sef Cyllideb 2018/19 – Cynigion Terfynol oherwydd ei fod yn Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 CYNNIG I SEFYDLU GRŴP CYNLLUNIO STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad yn amlinellu'r cynigion i ddisodli'r Grŵp Llywio Cynllun Datblygu Lleol gyda Grŵp Cynllunio Strategol gyda mwy o ffocws i arwain ar ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Byddai'r Grŵp newydd yn darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd corfforaethol i symud y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ei flaen i'r broses fabwysiadu ffurfiol ac i ganolbwyntio ar weithredu strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd y cylch gorchwyl drafft yn amlinellu rôl a diben y Grŵp a'i aelodau ynghlwm â'r adroddiad hwn.

Nododd y Cabinet y cynigion ar gyfer Grŵp llai, fyddai â mwy o ffocws, a cheisiodd sicrwydd y byddai cyfleoedd yn cael eu darparu i'r holl aelodau gael mewnbwn yn y broses newydd. Cadarnhaodd swyddogion fod y cylch gorchwyl drafft yn darparu ar gyfer un cynrychiolydd a dirprwy gynrychiolydd o bob un o'r Grwpiau Ardal Aelodau a chyfrifoldeb yr aelod hwnnw fyddai adrodd yn ôl a darparu mewnbwn o'u Grwpiau Ardal Aelod unigol a grwpiau gwleidyddol. Hefyd byddai'r holl waith papur perthnasol yn ymwneud â chyfarfodydd y Grŵp ar gael i'r holl gynghorwyr a byddai gweithdai/sesiynau briffio yn cael eu cynnal bob chwe mis i sicrhau cyfranogiad parhaus yr holl aelodau. Byddai adroddiadau diweddaru yn cael eu cynnwys ar raglenni'r Grŵp Ardal Aelodau yn ôl yr angen a byddai cyfnodau allweddol o ran datblygiad yn cael eu hadrodd i'r Cabinet a/neu'r Cyngor. Wrth ymateb i gwestiynau atebodd yr Aelod Arweiniol a'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai y cwestiynau fel a ganlyn –

- cadarnhawyd na fyddai cyfarfodydd y Grŵp newydd ar agor i'r holl aelodau eu mynychu a chytunwyd i wneud hyn yn fwy eglur yn y cylch gorchwyl
- pwysleisiwyd na fyddai'r cyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd
- cydnabuwyd gwaith caled y Grŵp Llywio CDLl a chadarnhawyd y byddai'r rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig yn sail i'r CDLl newydd

- eglurwyd y gofyniad statudol i ddarparu Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru a rôl y Grŵp newydd mewn goruchwylio paratoi'r adroddiad hwnnw; cytunwyd i roi eglurhad pellach ar y broses honno yn y cylch gorchwyl
- ailategwyd y bwriad i sicrhau un cynrychiolydd ac un dirprwy gynrychiolydd o bob Grŵp Ardal Aelodau gan gofio ei fod yn Grŵp newydd a oedd angen llai o aelodau na'r Grŵp Llywio blaenorol.

Pwysleisiodd y Cabinet ei bod yn bwysig fod cynrychiolwyr y Grwpiau Ardal Aelodau yn ymgysylltu’n rhagweithiol gyda'u Grŵp Ardal Aelodau perthnasol i roi adborth a darparu mewnbwn pellach i'r broses.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo sefydlu’r grŵp, y Cylch Gorchwyl drafft ac aelodaeth y Grŵp Cynllunio Strategol fel y nodir yn Atodiad 1, yn amodol ar gynnwys y canlynol yn y cylch gorchwyl (1) cyfeiriad cliriach at y ffaith na fyddai cyfarfodydd y grŵp yn agored i bob aelod etholedig eu mynychu, ac (2) eglurhad pellach ynghylch y broses ar gyfer paratoi’r Adroddiad Monitro Blynyddol.*

**6 DARPARIAETH BAND B - RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad yn cynghori’r Cabinet ynglŷn â chymeradwyo cyflwyno rhaglen Band B ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac Addysg a goblygiadau cyflawni.

Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd rhagorol o ran cyflawni’r cynigion Band A mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a gyda’i gilydd fe fyddent wedi buddsoddi dros £90m erbyn 2019 i gyflawni prosiectau allweddol. Fis Gorffennaf 2017, cymeradwyodd y Cabinet gyflwyno cynigion Band B gwerth £80.5m i Lywodraeth Cymru fel rhan o gam nesaf y buddsoddiad. Roedd Llywodraeth Cymru ers hynny wedi cymeradwyo’r buddsoddiad mewn egwyddor yn ddibynnol ar gymeradwyo achosion busnes prosiectau unigol. Yn dilyn hynny gofynnwyd i’r Cabinet gadarnhau ymrwymiad ariannol y Cyngor i gyflawni cynigion Band B yn unol â'r Cynllun Corfforaethol. £32.8m fyddai cyfraniad Sir Ddinbych a tua £1.8m fyddai’r gyllideb refeniw fyddai ei hangen i ariannu'r benthyca i gefnogi'r rhaglen dros saith mlynedd y rhaglen. Nid oedd unrhyw fanylion wedi ei ddarparu yn nhermau cynigion unigol a fyddai'n ddibynnol ar achosion busnes unigol yn cael eu hystyried gan y Grŵp Buddsoddiad Strategol a'r Cabinet.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad a buddsoddiad yng ngwaith adeiladu ysgolion er budd plant a phobl ifanc ac roedd yr Arweinydd yn awyddus i barhau â buddsoddiad a chynnydd y Cyngor blaenorol a manteisio ar unrhyw gyllid fyddai ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y diben hwnnw. Pwysleisiodd y Cynghorydd Mark Young yr angen i sicrhau proses agored ar gyfer cymunedau a rhoddodd yr Aelod Arweiniol sicrwydd o ran y gwersi sydd wedi eu dysgu o adolygiadau blaenorol a fyddai’n cael eu hadlewyrchu ym mhrosesau'r dyfodol.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a Phennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant i gwestiynau gan aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet fel a ganlyn -

- roedd y Rhaglen Amlinellol Strategol wedi ei chyflwyno cyn y cyhoeddiad diweddar ynglŷn ag arian ychwanegol yn benodol ar gyfer addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Ond atgoffwyd aelodau fod tua £30m wedi ei fuddsoddi mewn cynyddu a gwella cyfleusterau ar gyfer addysg Cyfrwng Cymraeg yn rhan Band A o'r cyllid a rhoddwyd sicrwydd pellach y byddai unrhyw gynlluniau fyddai'n mynd ymlaen i Fand B yn canolbwyntio ar barhau i gryfhau a chynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg Cyfrwng Cymraeg.Roedd swyddogion yn awyddus i sicrhau fod aelodau'n cael eu hysbysu ynglŷn ag unrhyw gyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru a allai ychwanegu neu alluogi cynlluniau i symud ymlaen i fuddsoddi yn ystâd yr ysgol yn gyffredinol. Roedd swyddogion yn ymrwymedig i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw ddiffygion mewn darpariaeth addysgol ar draws yr holl ysgolion yn Sir Ddinbych a thrafodwyd y ddarpariaeth ar gyfer Dysgwyr ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig yn ystod datblygiad y Cynllun Amlinellol Strategol; byddai'r drafodaeth yn parhau wrth i gynlluniau mwy manwl gael eu datblygu.
- unwaith roedd y Cabinet wedi cadarnhau ei ymrwymiad ariannol byddai'n bosibl mynd i'r afael â thrafodaethau helaeth yn ymwneud ag unrhyw gynigion dilynol fyddai'n cael eu cyflwyno yn unol â'r broses ddemocrataidd a glynu at bolisïau a gweithdrefnau'r Cod Trefniadaeth Ysgol
- hefyd rhoddwyd sicrwydd fod swyddogion yn gweithio'n agos gyda thimau dylunio o ran yr effeithiau ar yr amgylchedd gan gydnabod yr ymrwymiad i sicrhau fod gofynion amgylcheddol yn cael eu hateb cymaint â phosibl o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael ar gyfer prosiectau penodol.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cabinet yn:-*

*(a) cadarnhau ei ymrwymiad ariannol i gyflawni cynigion Band B yn unol â'r Rhaglen Amlinellol Strategol fel a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w alluogi i gwrdd â'r flaenoriaeth a gynhwysir o fewn y Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022, a*

*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les, sydd ynghlwm ag Atodiad 1 o'r adroddiad, fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 7 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2018/19

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cynnydd rhent blynyddol i dai yn Sir Ddinbych, Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Refeniw ar gyfer 2018/19 a'r Cynllun Busnes Stoc Tai.

Cafodd aelodau eu harwain drwy ffigyrau'r gyllideb gan y Cynghorydd Thompson-Hill a hefyd drwy'r rhagdybiaethau lefelau incwm a gyfrifwyd drwy ystyried Polisi Rhenti Llywodraeth Cymru ar gyfer rhenti tai cymdeithasol a mecanwaith ar gyfer cynyddu rhenti. Roedd yr adolygiad blynyddol o Gynllun Busnes y Stoc Dai yn dangos ei fod yn parhau'n gadarn ac yn hyfyw yn ariannol gydag adnoddau digonol i gefnogi rheoli a goruchwylio'r gwasanaeth tai ac anghenion y stoc o ran buddsoddiad.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi'r raddfa uchel o ran bodlonrwydd gan denantiaid a bod Sir Ddinbych yn cymharu’n ffafriol gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai eraill mewn perthynas â rhenti tai.  Nodwyd hefyd fod gan Sir Ddinbych ôl-ddyledion rhenti tai sy’n gyson isel mewn cymhariaeth â Chymru a'r DU. Ond cydnabuwyd fod Credyd Cynhwysol yn risg oedd yn cael ei reoli yn dda o fewn Sir Ddinbych gyda niferoedd isel o ôl-ddyledion rhent ar hyn o bryd. Roedd Aelodau hefyd yn falch o nodi fod rhaglen o 170 o gartrefi newydd wedi eu hymgorffori o fewn y Cynllun Busnes Stoc Tai ac atebodd yr Aelod Arweiniol - Tai Cymunedol gwestiynau'n ymwneud â chynnydd gyda'r rhaglen benodol honno a hefyd cadarnhaodd fod ffynonellau cynhesu gwahanol i nwy hylifol mewn ardaloedd gwledig yn cael eu harchwilio.  Ni ymdriniwyd â modurdai yn yr adroddiad gan nad ydynt yn ddarostyngedig i Bolisi Rhent Llywodraeth Cymru a byddai'r ffioedd a'r defnydd o safleoedd modurdai yn cael eu hadolygu gan y Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai.  Er hynny mynegodd y Cynghorydd Bobby Feeley bryder yn ymwneud â’r amser y mae wedi ei gymryd i gwblhau’r adolygiad o safleoedd modurdai a chytunwyd i dderbyn adroddiad yn ôl ar ymagwedd y Cyngor o ran modurdai yn dilyn cwblhau'r adolygiad mewn tua chwe mis.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018/19 (Atodiad 1 i’r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i’r adroddiad), a*

*(b) cynyddu rhenti anheddau’r Cyngor yn unol â Pholisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd fis Ebrill 2015 i rent wythnosol cyfartalog o £87.63 o ddydd Llun 2 Ebrill 2018 ymlaen.*

**8 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad gan geisio cefnogaeth y Cabinet i brosiectau a nodwyd i’w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2018/19 fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS) ac fel y nodwyd yn Atodiad 1 i’r adroddiad.

Arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau drwy’r adroddiad ac ymhelaethodd ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni gwaith parhaus.  Cyfeiriwyd at waith y GBS wrth adolygu’r cynigion am ddyraniadau a darparwyd crynodeb o’u hargymhellion ac fe ymhelaethwyd arnynt ymhellach yn y cyfarfod.  Roedd cynigion penodol lle roedd y GBS wedi argymell peidio â dyrannu cyllid, neu ddyrannu llai o gyllid ar eu cyfer, wedi eu nodi yn Atodiad 2 i'r adroddiad. Cyfeiriodd y Cynghorydd Thompson-Hill at sylwadau a dderbyniwyd gan aelodau yn ymwneud â’r cynnig am gyfyngiad cyflymder 40 milltir yr awr ym Mwlch yr Oernant, gyda safbwynt y GBS nad oedd ffynonellau ariannol eraill wedi eu harchwilio’n llawn. Byddai cais am arian grant yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ond os yn aflwyddiannus byddai diwygiad i'r argymhelliad i gynnwys bod dyraniad cyllid ar gyfer ei gynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2018/19 yn cael ei wneud.

Atebodd yr Aelod Arweiniol a’r swyddogion y cwestiynau fel a ganlyn –

- Bloc Priffyrdd C07 – roedd cyllid ar gyfer materion yn ymwneud â’r priffyrdd wedi ei gynnwys o fewn y dyraniad bloc cyfan a byddai’r Pennaeth Gwasanaeth yn penderfynu ar y defnydd mwyaf priodol o’r dyraniad hwnnw.
- Roedd yr elfen fenthyciad i ganiatáu parhau gyda rhaglen y lanternau stryd newydd yn cael ei drin ar wahân.
- C06 Gwaith Traffig – Astudiaeth Dichonoldeb Parcio Bysiau – roedd yr elfen hon o’r cais yn ymwneud ag astudiaeth ddichonoldeb ar draws nifer o feysydd ond nid oedd wedi ei gefnogi o ganlyniad i fforddiadwyedd gyda ffynonellau cyllid eraill i gael eu harchwilio
-

***PENDERFYNWYD*** *bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, sydd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2018/19, yn cael eu cefnogi, ynghyd ag eitem o Atodiad 2 sy’n ymwneud â chyfyngiad cyflymder o 40mya ar Fwlch yr Oernant, os yw’r cais grant am gyllid yn aflwyddiannus, a’u hargymell i'r Cyngor llawn.*

**9 CYLLIDEB 2018/19 – CYNIGION TERFYNOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn amlinellu goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2018/19 a'r cynigion ar gyfer cyllideb derfynol 2018/19, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

Darparodd y Cynghorydd Thompson-Hill drosolwg o broses y gyllideb a sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb ac ymhelaethodd ar y cynigion i’w hystyried a’r argymhelliad i’r cyngor llawn er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2018/19. Roedd y setliad terfynol wedi arwain at ostyngiad ariannol o -0.2% (roedd setliad dros dro wedi dangos -0.9%) ond er mwyn i’r sefyllfa ariannu aros yn niwtral byddai angen i’r setliad fod o leiaf +3.6%. Er nad oedd y gostyngiad mor ddrwg â'r hyn a ofnwyd i ddechrau, roedd angen ystyried ffactorau eraill, fel pwysau cyflogau, pensiwn a'r Cyflog Byw Cenedlaethol, yn ogystal â chwyddiant prisiau/ynni, lefi'r gwasanaeth tân a lle ar gyfer cynnydd yn y Cynllun Gostyngiadau i Dreth y Cyngor. Roedd pwysau’n parhau ar draws yr awdurdod gyda galw cynyddol am ariannu addysg a gofal cymdeithasol – roedd y gyllideb arfaethedig yn cynnwys cynnydd o £1.8m (2.7%) mewn cyllidebau ar gyfer ysgolion a dyraniad ychwanegol o £1.5m (3.2%) i ofal cymdeithasol. Roedd arbedion wedi eu canfod ar draws y Cyngor i gynorthwyo i ddarparu cyllideb gytbwys. O ran Treth y Cyngor cynigiwyd cynnydd o 4.75% oedd yn cynnwys dyraniad ychwanegol o 2% i ariannu pwysau gofal cymdeithasol gwerth £1.5m.

Trafododd y Cabinet y cynigion yn ymwneud â’r gyllideb, gan gydnabod y gostyngiad oedd yn parhau yn nyraniad cyllideb Sir Ddinbych a'r goblygiadau i wasanaethau o ganlyniad i hynny, a hefyd cydnabod fod yr hinsawdd ariannol yn parhau'n her i'r dyfodol a fyddai'n arwain at fwy o benderfyniadau anodd. Tra’n croesawu’r cynnydd arfaethedig i’r gyllideb gofal cymdeithasol, pwysleisiodd y Cynghorydd Bobby Feeley ei phryderon yn ymwneud ag ariannu ar gyfer y blynyddoedd i ddod o ystyried y galw cynyddol parhaus a’r pwysau sydd wedi eu nodi ar gyfer y dyfodol. Hefyd pwysleisiodd yr angen i sicrhau fod preswylwyr yn dod yn ymwybodol o’r cynnydd penodol yn Nhreth y Cyngor i ariannu'r pwysau presennol o ran gofal cymdeithasol. Cytunodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, gan ychwanegu fod yna gysyniad fod Treth y Cyngor yn cyfrif am y rhan fwyaf o

gyllideb y Cyngor, elfen yr oedd angen ymdrin â hi hefyd. Credai fod y gyllideb arfaethedig yn deg, yn ddealladwy ac yn ddoeth ac y dylai roi hyder i'r preswylwyr gyda gofal cymdeithasol, addysg a gwasanaethau plant yn cael eu hamddiffyn. Yng ngoleuni pwysau parhaus a gostyngiad mewn setliadau yn y dyfodol, roedd aelodau hefyd yn awyddus i ddechrau proses y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod mor fuan â phosibl.

Roedd trafodaethau pellach ar gynigion y gyllideb yn canolbwyntio ar y canlynol -

- roedd gwaith yn parhau i reoli costau ynni a chadw cynnydd mor isel â phosibl; mae lleihau'r cyfanswm o ynni sy’n cael ei ddefnyddio yn fater allweddol yn y Cynllun Corfforaethol ac mae Prosbectws Ynni yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd
- talwyd teyrnged i waith Archaeolegydd y Sir sy’n ymddeol a thrafodwyd goblygiadau dileu’r swydd honno.
- Nodwyd y gallai fod rhaid cael cyngor arbenigol o du allan i'r awdurdod yn y dyfodol
- y rhesymu y tu ôl i ddiddymu cynllun grant datblygu'r busnesau bach er mwyn cael arbediad o 50% a hefyd ymhelaethwyd ar fuddsoddi mewn system wella busnes sydd â mwy o ffocws
- roedd gwaith yn cael ei wneud gydag ysgolion ac Adnoddau Dynol i sicrhau fod cytundebau i staff yn addas a bod modd eu haddasu o fewn ysgolion i alluogi i gytundebau gael eu newid yn unol â newid mewn anghenion.
- roedd y Cyngor yn dal i gefnogi byw'n annibynnol a gwytnwch a thra roedd y Tîm Cefnogi Pobl yn ymgymryd â'r mater yn ymwneud â dyfodol y Grant Byw'n Annibynnol, roedd dulliau eraill wedi eu nodi a fyddai’n galluogi i’r cymorth hwnnw barhau heb gyllid grant penodol.
- tra bod cyllid ychwanegol wedi ei roi i addysg a gofal cymdeithasol cydnabuwyd y byddai’r ddau sector yn parhau i fod o dan lawer o bwysau
- wrth ymateb i gwestiynau eglurwyd yr elfennau ychwanegol sy’n sail i’r gyllideb, fel y nodir yn y rhagamcanion ariannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod,
- eglurwyd y gwahaniaeth rhwng cronfeydd wrth gefn a balansau cyffredinol a chadarnhaodd swyddogion tra roedd yna arweiniad cyffredinol o ran y cyfanswm o gronfeydd wrth gefn a balansau cyffredinol i’w dal gan awdurdodau lleol, nid oedd yna swm wedi ei bennu yn gyfreithiol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

(a) *nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2018/19,*

(b) *yn cefnogi’r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 i’r adroddiad oedd yn unol â’r rhagdybiaethau a gyflwynwyd i aelodau mewn sesiynau briffio ar y gyllideb a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017, ac yn unol â hynny yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn cwblhau cyllideb 2018/19, ac*

(c) *argymell i’r Cyngor fod y cynnydd cyfartalog yn Nhreth y Cyngor sydd ei angen i gefnogi'r gyllideb yn 4.75%, sy'n cydnabod y pwysau cynyddol o ran cost yng ngofal cymdeithasol oedolion a phlant drwy ddarparu cyllid ychwanegol o £1.5m.*

Ar y pwynt hwn (12.10 pm) cafwyd egwyl am luniaeth.

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr adroddiad yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd o ran strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn-

- amcanwyd y byddai cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol yn adennill costau o ganlyniad i ddefnyddio cynlluniau corfforaethol wrth gefn
- arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth gwerth £0.902m oedd eisoes wedi eu cytuno fel rhan o'r gyllideb gyda'r dybiaeth y byddai'r cyfan yn cael ei gyflawni – byddai'r Cabinet yn cael eu hysbysu ynglŷn ag unrhyw eithriadau os oedd angen
- pwysleisiwyd y risgiau ac amrywiaethau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn awyddus i ailategu y byddai yna bwysau o hyd ar gyllidebau gofal cymdeithasol, hyd yn oed gyda dyraniad y cyllid ychwanegol arfaethedig i Wasanaethau Cefnogi Cymunedol, a nododd y Cabinet y byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus. O ran y tywydd garw a'r effaith ar gyllid cyfeiriodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill at y gronfa wrth gefn ar gyfer cynnal yn ystod y gaeaf er mwyn cynorthwyo'r amrywiaeth mewn gwariant, a doedd dim materion penodol ar hyn o bryd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/ diwygiadau canlynol -

- Rhanbarthau Gwella Busnes – wedi eu haildrefnu o Fai i Fawrth 2018
- Canolfan Ddydd Hafan Deg Y Rhyl – wedi ei hychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer Ebrill 2018
- Adolygiad Cartref Gofal – i'w ychwanegu i'r rhaglen waith, dyddiad i'w gadarnhau

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 16 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 12 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH – GWEITHDREFN GORCHYMYN PRYNU GORFODOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad cyfrinachol yn diweddaru’r Cabinet ar y weithdrefn Gorchymyn Prynu Gorfodol yn ymwneud â chyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych a cheisio cefnogaeth aelodau i’r broses o benderfynu beth yw'r dewis gorau o ran datblygu a’r datblygwr ar gyfer y safle fel yr amlinellir o fewn yr adroddiad. Nodwyd yr ymgynghorwyd â swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru a’u bod yn fodlon gyda'r broses arfaethedig.

Darparodd swyddogion ychydig o wybodaeth gefndir yn arwain at y sefyllfa bresennol a nododd aelodau’r amserlen ar gyfer cwblhau’r Gorchymyn Prynu Gorfodol a chyflawni’r prosiect. Roedd y fersiwn derfynol o fanyleb y tendr wedi ei gylchredeg yn y cyfarfod a phwysleisiodd swyddogion y prif newidiadau o’r drafft blaenorol. Trafododd aelodau yr argymhellion, fel y nodir o fewn yr adroddiad, gyda swyddogion gan gynnwys manyleb y tendr a’r weithdrefn asesu a gwerthuso er mwyn penderfynu ar y dewis gorau ar gyfer y safle yn ogystal â rhai materion cyfreithiol a risgiau o gylch y broses gyfan a goblygiadau o ran cost yn y dyfodol. Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cefnogi’r broses a nodir yn yr adroddiad ar gyfer penderfynu ar y dewis o ran datblygu a’r datblygwr a ffefrir ar gyfer y safle ar ôl i broses y Gorchymyn Prynu Gorfodol ddod i ben.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 pm.